

## Datganiadau Tynnu Dŵr – Cwestiynau Cyffredin

14 Chwefror 2017

### Yr angen i gyflwyno datganiad

#### 1. Pam mae angen i mi gwblhau datganiad? Pam mae datganiadau'n bwysig? Ar gyfer beth y defnyddir y data?

Mae angen i ni wybod faint o ddŵr rydych wedi ei dynnu er mwyn ein helpu i ofalu am yr amgylchedd a rheoli'r adnoddau dŵr rydych yn dibynnu arnynt. Mae eich data'n bwysig ac fe'i defnyddir gennym i:

- Aseu'n gywir effaith gwaith tynnu dŵr ar lifoedd afonydd, lefelau dŵr daear, a chynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd sy'n dibynnu ar ddŵr
- Aseu'r galw am ddŵr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Dyrannu adnoddau dros ben i dynwyr dŵr eraill
- Darparu gwybodaeth am y defnydd o ddŵr
- Gwirio bod deiliaid trwyddedau'n cydymffurfio ag amodau eu trwydded

#### 2. Beth os na fyddaf yn cyflwyno datganiad?

Os na fyddwch yn anfon gwybodaeth ddatgan atom o fewn 28 diwrnod wedi i ni ofyn amdani neu o fewn pythefnos o ddyddiad yr hysbysiad atgoffa, byddwn yn nodi bod y mater hwn wedi torri amodau eich trwydded. Os na fyddwch yn cydymffurfio ag amodau eich trwydded, mae'n bosibl y bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd yn eich erbyn.

Yn ogystal:

- Os ydych yn tynnu dŵr ar gyfer dyfrhau ac yn meddu ar gytundeb tariff dwy ran, cyfrifir eich taliad am dynnu dŵr yn seiliedig ar y maint fe'ch trwyddedir i'w ddefnyddio, yn hytrach na'r maint rydych wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd. Bydd hyn yn costio rhagor o arian i chi. Nid ydym yn rhoi ad-daliadau am ddatganiadau hwyr.
- Os oes terfyn amser ar eich trwydded, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu ei hadnewyddu.
- Mae'n bosibl y byddwn yn cymryd nad oes angen y drwydded arnoch bellach a byddwn o bosibl yn cymryd camau i'w chanslo.
- Mae'n bosibl y bydd taliadau am dynnu dŵr yn y dyfodol yn cael eu codi, i dalu am gostau ychwanegol ar gyfer gwaith dilyn datganiadau nad ydynt wedi'u dychwelyd.

### Derbyn hysbysiadau cyflwyno datganiad

#### 3. Mae'r ffurflen ddatgan yn edrych yn wahanol i ffurflenni blynyddoedd blaenorol. Yn y gorffennol, roeddwn i'n derbyn fy ffurflen ddatgan gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Bellach, ni sy'n gyfrifol am y broses ddatgan ar gyfer tynwyr dŵr yng Nghymru. Yn flaenorol, roedd y gwaith hwn yn cael ei weinyddu ar ein rhan ni gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a byddant yn parhau i weinyddu'r broses hon ar gyfer tynwyr dŵr yn Lloegr.

O hyn ymlaen, bydd tynwyr dŵr yng Nghymru yn derbyn hysbysiadau i gyflwyno datganiadau i ni. Os ydych yn dal trwyddedau yn Lloegr hefyd, byddwch yn parhau i dderbyn hysbysiadau i gyflwyno datganiadau ar wahân gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Trwyddedau dirprwyedig: Mae'r gwaith o reoli trwyddedau sy'n awdurdodi tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys datganiadau) wedi cael ei ddirprwyo naill ai i ni neu i Asiantaeth yr Amgylchedd. Os ydych yn dal trwydded ddirprwyedig, fe fyddwch wedi cael eich hysbysu eisoes. Byddwch yn derbyn eich hysbysiad gan y corff y mae eich trwydded wedi cael ei dirprwyo iddo.

Mae ffurflen ddatgan, proses a system TG newydd wedi cael eu datblygu i fodloni'r newidiadau hyn. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i ni weinyddu'r broses ddatgan ac i dynwyr gyflwyno datganiadau mewn modd mwy effeithlon a chost effeithiol. Mae canllawiau i'ch cefnogi chi wedi'u cynnwys â ffurflenni datgan papur neu maent ar gael ar ein gwefan (<https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/water-abstraction-returns/?lang=cy>) neu drwy ddolen yn eich e-bost hysbysu os ydych yn derbyn ffurflen ddatgan electronig. Mae nodiadau cyfarwyddyd hefyd yn y ffurflen ddatgan electronig.

#### **4. Cofrestrais gyfeiriad e-bost ond rwyf wedi derbyn hysbysiad cyflwyno datganiad ar bapur**

Yn anffodus, rydym wedi cael rhai anawsterau ag ambell gyfeiriad e-bost a ddarparwyd. Yn yr achosion hyn, mae hysbysiad cyflwyno datganiad ar bapur wedi'i anfon ynghyd â slip ymateb sy'n rhoi'r cyfle i chi ddarparu cyfeiriad e-bost dilys er mwyn derbyn hysbysiadau electronig yn y dyfodol. Cwblhewch y slip ymateb (gan nodi'r cyfeiriad e-bost yn glir mewn print bras) a chyflwynwch ef â'ch datganiad papur.

**Sylwch:** Ar gyfer datganiadau electronig, bydd angen Excel 2007 neu fersiwn ddiweddarach arnoch ac mae'n rhaid i'ch gosodiadau e-bost ganiatáu e-byst gyda ffeiliau Excel wedi'u hatodi oddi wrth [waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Os nad ydych yn gallu derbyn datganiadau electronig oherwydd cyfyngiadau diogelwch eich cyfrifiadur neu am nad oes gennych y pecyn Excel gofynnol, peidiwch â dychwelyd y slip ymateb. Byddwch yn parhau i dderbyn datganiadau papur.

#### **5. Cofrestrais gyfeiriad e-bost ond nid wyf wedi derbyn hysbysiad cyflwyno electronig neu hysbysiad cyflwyno datganiad ar bapur amnewidiol**

Caiff yr hysbysiad cyflwyno datganiad ei anfon gan [waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Gwiriwch eich ffolder 'sothach' a sicrhewch fod eich cyfrif e-bost yn gallu derbyn e-byst (gydag atodiadau Excel) o'r cyfeiriad e-bost hwn.

Os nad ydych wedi derbyn hysbysiad e-bost ac os nad ydych yn derbyn hysbysiad ar bapur o fewn wythnos o'r dyddiad ar frig y ddogfen cwestiynau cyffredin hon, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost atom yn [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk). Sicrhewch eich bod yn gallu rhoi eich rhif(au) trwydded.

#### **6. Nid wyf wedi cofrestru cyfeiriad e-bost ond nid wyf wedi derbyn hysbysiad ar bapur**

Cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu drwy anfon e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk). Sicrhewch eich bod yn gallu rhoi eich rhif(au) trwydded.

## **7. Hoffwn i gofrestru ar gyfer hysbysiadau cyflwyno datganiadau electronig**

Cwblhewch a dychwelwch y slip ymateb a ddarparwyd gyda'ch datganiad papur. Sicrhewch eich bod yn nodi'ch cyfeiriad e-bost yn glir mewn print bras.

Sylwch: Ar gyfer datganiadau electronig, bydd angen Excel 2007 neu fersiwn ddiweddarach arnoch ac mae'n rhaid i osodiadau diogelwch eich cyfrif e-bost ganiatáu e-byst gyda ffeiliau Excel wedi'u hatodi oddi wrth [waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

Os nad ydych yn gallu derbyn datganiadau electronig oherwydd cyfyngiadau diogelwch eich cyfrifiadur neu am nad oes gennych y pecyn Excel gofynnol, peidiwch â dychwelyd y slip ymateb. Byddwch yn parhau i dderbyn datganiadau ar bapur.

## **8. Rwyf wedi derbyn hysbysiad cyflwyno datganiad am drwydded/tyniad nad ydwyf yn gyfrifol amdani/o**

Cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu drwy anfon e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk).

## **9. Mae fy nhrwydded wedi dod i ben/cael ei dirymu/cael ei throsglwyddo i berson arall ond rwyf dal wedi derbyn cais am ddatganiad. Beth ddylwn i ei wneud?**

Mae angen i chi gwblhau'r datganiad i ddarparu gwybodaeth am eich gweithgarwch tynnu dŵr rhwng dechrau cyfnod y datganiad tynnu dŵr (gweler 'Dyddiad dechrau cyfnod y datganiad' sydd wedi ei nodi ar frig 'Taflen glawr' y ffurflen ddatgan) a'r dyddiad y daeth y drwydded i ben neu y cafodd ei throsglwyddo/dirymu.

## **10. Rwyf wedi derbyn mwy nag un hysbysiad cyflwyno datganiad. Sut ydwyf yn gwybod pa ddata i'w gofnodi ym mhob ffurflen?**

Pan fo trwydded yn awdurdodi tynnu dŵr ar gyfer mwy nag un diben a/neu mewn mwy nag un lleoliad yna mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gyflwyno datganiadau amryfal ar gyfer pob datganiad. Bydd hyn yn cael ei amlinellu yn amodau'r drwydded a chaiff hysbysiadau cyflwyno datganiad eu cynhyrchu yn unol ag amodau'r drwydded. Dyma oedd y drefn hefyd pan oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweinyddu datganiadau ar ein rhan.

Os ydych yn meddu ar drwyddedau amryfal, byddwch hefyd yn derbyn hysbysiadau cyflwyno datganiad amryfal.

Bydd y meysydd 'rhif adnabod y datganiad', 'enw'r safle' a 'diben', sydd wedi'u llenwi'n barod yn y ffurflen ddatgan, yn eich helpu i adnabod i ba ddiben/pwynt/trwydded mae pob datganiad yn perthyn.

## **11. Rwyf fel arfer yn derbyn fy hysbysiadau ar ddiwedd mis Mawrth neu ddiwedd mis Hydref**

Yn anffodus, rydym wedi profi rhywfaint o oedi gyda'r gwaith o gyflwyno'r system a phroses newydd i ymaddasu i'r newid gyda ni'n cymryd y cyfrifoldeb dros ddatganiadau ar gyfer tynwyr dŵr yng Nghymru. Mae hysbysiadau cyflwyno datganiadau mis Mawrth a mis Hydref

2016 ar gyfer tynwyr dŵr yng Nghymru wedi cael eu gohirio tan nawr yn anffodus. Rydym yn disgwyl y bydd hysbysiadau cyflwyno datganiadau mis Mawrth 2017 yn cael eu gohirio hefyd tan fis Mehefin 2017. Ni ddisgwylir oediadau ar gyfer hysbysiadau cyflwyno datganiadau o fis Hydref 2017 ymlaen.

## Cwblhau ffurflenni datgan

### **12. Nid wyf wedi tynnu unrhyw ddŵr. Oes dal angen i mi gwblhau datganiad?**

Os ydych wedi derbyn hysbysiad cyflwyno datganiad, er mwyn cydymffurfio ag amodau eich trwydded mae'n rhaid i chi gwblhau a chyflwyno datganiad. Os nad ydych wedi tynnu unrhyw ddŵr, mae gofyn i chi gwblhau a chyflwyno ffurflen yn unol â'r canllawiau sydd ar gael i gadarnhau datganiad 'dim'. Ni allwn dderbyn neges e-bost sy'n datgan nad oes unrhyw ddŵr wedi cael ei dynnu.

Os ydych yn dyfrio drwy chwistrellu ac mae gennych gytundeb bilio tariff dwy ran, cyfrifir eich taliadau yn rhannol yn ôl y cyfanswm o ddŵr rydych wedi ei dynnu. Er mwyn sicrhau manteision ariannol llawn y cytundeb hwn, rhaid i chi gyflwyno eich datganiad, hyd yn oed os nad ydych wedi tynnu unrhyw ddŵr.

### **13. Nid wyf yn defnyddio/nid oes arnaf angen y drwydded bellach. Oes dal angen i mi gwblhau datganiad?**

Mae gofyn i chi ddarparu manylion o feintiau'r dŵr a dynnwyd yn unol ag amodau eich trwydded tan i chi ddirymu'r drwydded neu ei throsglwyddo i rywun arall. Os nad ydych wedi tynnu unrhyw ddŵr, mae'n rhaid i chi gwblhau a chyflwyno datganiad 'dim' yn unol â'r canllawiau sydd ar gael. Ni allwn dderbyn neges e-bost sy'n datgan nad oes unrhyw ddŵr wedi cael ei dynnu.

Os yw eich amgylchiadau wedi newid ac nid oes angen y drwydded arnoch fwyach, dylech geisio dirymu eich trwydded. Mae gwybodaeth am sut i newid trwydded gyfredol ar gael ar ein gwefan yn <https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/applying-to-change-an-existing-abstraction-or-impoundment-licence/?lang=cy>. Os oes angen arnoch wybodaeth ychwanegol neu os hoffech drafod dirymiad y drwydded ymhellach, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk).

### **14. Rwyf wedi cofnodi data mewn taenlen/ffurflen bersonol fy hun. Allaf i gyflwyno hon fel fy natganiad?**

Datganiadau electronig: Sylwch: gallwn dim ond dderbyn y daenlen ddatgan Excel a ddarparwyd. Nid yw taenlenni na gwybodaeth eraill sydd wedi'u copïo a'u gludo o ffurflenni blaenorol yn gydnaws, felly ni ellir eu huwchlwytho a bydd yn rhaid eu dychwelyd.

Datganiadau ar bapur: Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir. Mae'r ffurflen wedi'i dylunio i'ch galluogi i ddarparu'r holl wybodaeth y mae arnom ei hangen mor gywir ac effeithlon â phosibl.

### **15. Pa rannau o'r ffurflen ddatgan mae angen i mi eu cwblhau?**

Ceir gwybodaeth fanwl am ba adrannau mae angen i chi eu cwblhau yn y canllawiau newydd sydd ar gael. Ceir hysbysiadau cyflwyno datganiad ar bapur yn y canllawiau

perthnasol. Ar gyfer datganiadau electronig, cewch ganfod y canllawiau perthnasol yn <https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/water-abstraction-returns/?lang=cy> (dolen wedi'i darparu yn eich e-bost hysbysiad datganiad).

Ceir arweiniad ar sut i gwblhau pob adran o'r ffurflen ddatgan yn y canllawiau. Bydd nodiadau cyfarwyddyd hefyd yn ymddangos unwaith i chi ddechrau mewnbynnu gwybodaeth mewn adrannau penodol o'r ffurflen ddatgan electronig.

**16. Rwyf wedi defnyddio'r canllawiau perthnasol i bennu pa adrannau o'r ffurflen mae angen i mi eu cwblhau ond rwyf yn credu fy mod wedi derbyn y ffurflen anghywir**

Cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk).

**17. Rwyf yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r ffurflen (datganiadau ar bapur)**

Sicrhewch eich bod wedi darllen y canllawiau cam wrth gam ar sut i gwblhau eich datganiad a ddarparwyd gyda'ch ffurflen ddatgan a'r ddogfen cwestiynau cyffredin hon. Os ydych yn dal i gael trafferthion, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000.

**18. Rwyf yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r ffurflen (datganiadau electronig)**

Sicrhewch eich bod wedi darllen y canllawiau cam wrth gam ar sut i gwblhau eich datganiad (ar gael yn <https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/water-abstraction-returns/?lang=cy> neu drwy ddolen a ddarparwyd yn eich e-bost hysbysiad datganiad) a'r ddogfen cwestiynau cyffredin hon. Os ydych yn dal i gael trafferthion, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000.

**19. Beth yw datganiad 'dim'?**

Mae datganiad 'dim' yn nodi nad oes unrhyw ddŵr wedi cael ei dynnu yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr.

**20. Rwyf wedi defnyddio mwy nag un mesurydd yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr**

Rhowch enw gwneuthurwr a rhif cyfresol un mesurydd yn unig a rhowch wybodaeth bellach i egluro'r defnydd a wnaed o fesuryddion ar daflen(ni) ar wahân a'i/a'u dychwelyd mewn atodiad yn yr e-bost ymateb neu gyda'ch datganiad ar bapur (gweler Adran 5 y ffurflen ddatgan am fanylion ynghylch cyflwyno gwybodaeth bellach).

**21. Rwyf yn pennu cyfaint y dŵr a dynnwyd trwy ddefnyddio dull anfesuryddol a hoffwn ddarparu manylion am fy nghyfrifiadau**

Rhowch unrhyw wybodaeth bellach ofynnol fel taflen(ni) ar wahân mewn atodiad yn yr e-bost ymateb neu gyda'ch datganiad ar bapur (gweler Adran 5 y ffurflen ddatgan am fanylion ynghylch cyflwyno gwybodaeth bellach).

**22. Mae fy nhrwydded yn rhoi'r awdurdod i mi dynnu dŵr yn ystod yr haf (mis Ebrill i fis Hydref) neu yn ystod y gaeaf (mis Tachwedd i fis Mawrth) ond mae'r ffurflen ddatgan yn fy ngalluogi i fewnbynnu gwybodaeth ddatgan am gyfnod o 12 mis.**

Mae hyn yn gywir. Bydd y ffurflen ddatgan bob amser yn dangos 12 mis, hyd yn oed os nad yw'ch trwydded yn eich awdurdodi i dynnu dŵr drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn i'ch galluogi i roi manylion o'ch gweithgarwch tynnu dŵr gwirioneddol ac i asesu a yw cyfnod awdurdodedig y drwydded yn diwallu eich anghenion.

**23. Rwyf wedi dilyn y canllawiau ac wedi cwblhau darlleniad perthnasol y mesurydd a/neu adrannau ynghylch cyfaint y dŵr a dynnwyd, ond nid yw'r adran 'cyfanswm y dŵr a dynnwyd' yn llenwi'n awtomatig (datganiadau electronig yn unig)**

Sylwch: ni fydd y maes hwn yn llenwi'n awtomatig â'r data a fewnbynwyd o ddarlleniadau mesuryddion/cyfaint y dŵr a dynnwyd. Mae sawl rheswm am hyn, gan gynnwys osgoi camgyfrif lle defnyddiwyd mwy nag un mesurydd yn ystod y cyfnod tynnu dŵr ac er mwyn dilysu'r data a fewnbynwyd o ddarlleniad y mesurydd/cyfaint y dŵr a dynnwyd.

**24. Rwyf yn tynnu dŵr ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr ond nid wyf yn ymwybodol o'r data perfformiad a fynnir yn Adran 6 o'm taflen 'datganiad ynni dŵr'**

Yn unol ag amodau eich trwydded, dylech fod wedi cofnodi'r data perfformiad (effeithlonrwydd y pen gweithredu net a'r tyrbin/olwyn ddŵr, y generadur a'r system drosglwyddo) yn y rhestr wirio cyfrifiad sydd ynghlwm wrth eich dogfen drwydded. Os nad ydych yn meddu ar y data hwn, sylwch nad ydym yn cadw'r data penodol i'r safle a chyfarpar hwn. Bydd angen ceisio unrhyw gymorth pellach oddi wrth y cwmni/cwmnïau a ddarparodd y chyfarpar a/neu unrhyw asiant sy'n gyfrifol am ddylunio ac adeiladu'r cynllun.

**25. Mae'r manylion sydd wedi'u llenwi'n barod yn y ffurflen ddatgan yn anghywir**

Bydd angen adolygu hyn gan ein tîm Trwyddedu Adnoddau Dŵr oherwydd gallai fod angen gwneud cywiriadau i ddogfen y drwydded drwy gyfrwng cais am drwydded. Rhwng fanylion i ni trwy ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu drwy anfon e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk).

**Creu'r ffeil .xml a'i chyflwyno (datganiadau electronig)**

**26. Nid wyf yn gallu creu'r ddogfen .xml i'w chyflwyno**

Adolygwch y 'Rhestr Wirio Cwblhau' ar waelod y ffurflen ddatgan gwnaethoch ei chwblhau i wirio bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei darparu.

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r datganiad tan fod 'le' yn ymddangos wrth ymyl pob cofnod y 'Rhestr Wirio Cwblhau'. Adolygwch a diweddarwch unrhyw adrannau perthnasol sy'n dal i ddangos 'Na' i'w newid i 'le'.

**27. Rwyf wedi creu'r ffeil .xml ond nid wyf yn gallu dod o hyd iddi ar fy nghyfrifiadur**

I greu'r ffeil .xml, mae'n rhaid i chi gadw'r ffeil Excel mewn lle hysbys ar eich cyfrifiadur yn gyntaf. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod ble'r ydych wedi cadw'r ffeil oherwydd bydd y ffeil .xml y byddwch yn ei chreu yn cael ei chadw yn yr un ffolder.

**Ymholiadau mewn perthynas â thrwyddedau**

**28. Mae arnaf angen gwneud newidiadau i'm trwydded tynnu dŵr gyfredol**

Sylwch: ni ellir derbyn ceisiadau i newid trwyddedau cyfredol trwy flwch post y tîm Datganiadau Adnoddau Dŵr. Ceir gwybodaeth ar sut i newid trwydded gyfredol ar ein gwefan yn <https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/applying-to-change-an-existing-abstraction-or-impoundment-licence/?lang=cy>. Os oes angen arnoch fwy o wybodaeth neu os hoffech drafod y newid i'r drwydded ymhellach, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost at [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk).

**29. Nid wyf yn fodlon ar/deall amodau mesur a chofnodi fy nhrwydded.**

Cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost at [waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk).